OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 137 (Cy. 66)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") yn nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r gofynion hyfforddi mewn perthynas â data perfformiad ysgolion wedi eu nodi mewn dogfen o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion" ac y mae cyfeiriad ati yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion" ("dogfen 2014") yn rheoliad 2 o Reoliadau 2013. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad hwnnw er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at ddogfen 2014, gyfeiriad at y gofynion hyfforddi newydd ar ddata perfformiad ysgolion a nodir mewn dogfen o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion" ("dogfen 2016").

Mae rheoliad 3 yn cynnwys darpariaeth arbed y mae ganddi'r effaith fel na fydd yn ofynnol i lywodraethwyr ysgolion presennol gwblhau'r hyfforddiant yn nogfen 2016 os ydynt eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 137 (Cy. 66)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Chwefror 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *9 Chwefror 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 22(3) a (4) a 32 o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2013" ("*the 2013 Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013(**2**).

**Diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013**

**2.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau 2013 yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion" ("*the school performance data training*"), yn lle "mis Awst 2014 o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion"", rhodder "mis

(**1**) 2011 mccc 7.
(**2**) O.S. 2013/2124 (Cy. 207) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/1132 (Cy. 111) ac O.S. 2014/2225 (Cy. 214).

Ionawr 2016 o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion (**1**)"".

**Darpariaeth arbed**

**3.** Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i lywodraethwr a gwblhaodd, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
3 Chwefror 2016

---

(**1**) ISBN-978-1-4734-5689-1